

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

nodiodau ar gyfer pobl ifanc



Fel person ifanc sy'n byw yng Nghymru heddiw, bydd angen llawer o bethau a chymorth arnoch gan amryw o bobl er mwyn ichi dyfu i fyny'n bobl hapus ac iach.


Go debyg eich bod yn yr ysgol ar hyn o bryd lle mae athrawon yn eich helpu i gael addysg dda. Ar ryw adeg, byddwch wedi gorfod gweld y meddyg, y deintydd a'r nyrs. Maen nhw'n eich helpu i gadw'n iach.

Er mwyn ichi gael hwyl, mae angen digon o gyfleoedd arnoch i gymryd rhan mewn chwaraeon, i ddarllen llyfrau, i fynd i'r theatr ac i amgueddfeydd.

Os ydych yn siarad Cymraeg, efallai hoffech chi wneud y pethau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hefyd, rydych eisiau teimlo'n ddiogel lle rydych chi'n byw. Mae angen dŵr yfed glân arnoch, aer glân i'w anadlu a bwyd da i'w fwyta.

Wrth ichi fynd yn hŷn, efallai byddwch eisiau mynd i'r Brifysgol neu eisiau swydd dda.




Ond dyw pethau ddim yn rhwydd bob amser


Mae ein gwlad yn wynebu sawl her fawr, er enghraifft:

- Mae pobl yn byw mewn tloedi yng Nghymru
- Mae'r hyn sy'n digwydd ledled y byd yn effeithio ar ein heconomi
- Rydym i gyd yn byw'n hirach. Mae hynny'n beth da ond mae hefyd yn golygu bod angen inni fod yn iach am gyfnod hirach
- Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, mae llawer o bobl yn dioddef o broblemau iechyd
- Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bethau fel y tywydd a phris bwyd

Os ydym eisiau trechu'r heriau hyn, rydym yn gwybod bod yn rhaid newid y ffordd rydym yn gwneud pethau.



Mae'n rhaid inni wneud pethau'n wahanol er mwyn sicrhau newid. Dyma'r rheswm pam mae gennym gyfraith newydd yng Nghymru, sef Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.




Mae Cymru'n gwneud pethau'n wahanol

Cymru yw un o'r gwledydd cyntaf i gyflwyno deddf fel hon. Mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i'r 44 o gyrrff cyhoeddus sydd yng Nghymru weithio gyda'i gilydd er mwyn iddynt lwyddo i gyrraedd y saith nod llesiant. Mae'r cyrrff cyhoeddus yn cynnwys y cynghorau lleol, y GIG a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Dyma'r saith nod llesiant:

- 1** Cymru lewyrchus – pan fydd gan bawb swyddi a does dim tlodi
- 2** Cymru gydnerth – pan fyddwn yn barod ar gyfer digwyddiadau fel llifogydd
- 3** Cymru iachach – pan fydd pawb yn fwy iach ac yn gallu gweld meddyg pan fo angen
- 4** Cymru sy'n fwy cyfartal – pan fydd pawb yn cael cyfle cyfartal beth bynnag yw ei gefndir
- 5** Cymru o Gymunedau cydlynus – pan fydd Cymunedau'n gallu byw gyda'i gilydd yn hapus
- 6** Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – pan fydd llawer o gyfleoedd gyda ni i wneud pethau gwahanol a phan bydd llawer o bobl yn gallu siarad Gymraeg
- 7** Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – pan fyddwn yn gofalu am yr Amgylchedd ac yn meddwl am bobl eraill ledled y Byd.



Er mwyn i bob corff cyhoeddus ddangos ei fod yn rhoi sylw i'r saith nod llesiant, mae angen iddo gofio am:

- Y tymor hir
- Sut i roi stop ar broblemau cyn iddynt ddigwydd
- Sut maen nhw'n gweithio gydag eraill
- Sut maen nhw'n cynnwys eraill wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau
- Pa mor gysylltiedig yw'n bywydau ni

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yw'r person sy'n sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn rhoi sylw i'r nodau llesiant. Ei rôl yw diogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Wrth hynny, rydym yn golygu pobl o bob oed.

Hefyd, mae'r Comisiynydd yn gallu awgrymu sut gall y cyrff cyhoeddus weithio mewn ffordd well.

Bob blwyddyn, bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ysgrifennu adroddiad ar ba mor dda y mae Cymru'n llwyddo i gyrraedd y nodau.

Bydd y Comisiynydd yn gwarchod ar gyfer eich dyfodol chi, ein dyfodol ni a phobl o bob oed.



Dyma'r **Gymru** yr hoffech ei gweld. Dyma'r **Gymru** yr hoffem ni i gyd ei gweld.



Rhagor o wybodaeth

Gwefan:

Llywodraeth Cymru

www.llyw.cymru

Y Gymru a Garem

www.ygymruagarem.co.uk

Siarter Datblygu Cynaliadwy

www.siarter-dc.net

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

www.cynulliad.cymru

Twitter:

#DeddfLICD

#ygymruagarem/

#thewaleswewant

E-bost:

Y Gangen Datblygu Cynaliadwy,

Llywodraeth Cymru

FGActWales@wales.gsi.gov.uk

